


Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant Adroddiad Ymgynghori

Ar y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01656 656447 i drefnu hyn.

Cynnwys

Cefndir.....	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Cyhoeddi'r ymgynghoriad	3
Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.....	3
Cyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio	4
Ymgynghori â phlant a phobl ifanc.....	4
Cwestiynau Ymgynghori	5
Ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Proffil o'r ymatebwyr	5
Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.....	7
Casgliad	8
Argymhellion.....	9
Atodiad A – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc.....	10
Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin	13

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 28 Ionawr 2019 a 15 Mawrth 2019, mewn ymateb i gynneg y corff llywodraethu i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r corff llywodraethu glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefanau'r ysgol a Chyngor Bro Morgannwg ar 28 Ionawr 2019. Cafodd ymgynghoreion ddolen mewn neges e-bost hefyd a oedd yn mynd â hwy at wefanau'r ysgol a Chyngor Bro Morgannwg.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynnig a oedd dan ystyriaeth, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgynghoreion eu hysbysu ynghylch argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad

Cafodd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y ddau ymgynghoriad ynghylch y cynnig ei chyflawni gydag ymgynghoreion rhagnodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fe ymgynghorodd y corff llywodraethu â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Cyngor Cymuned Tregolwyn
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Cyngor Cymuned Llandŵ

Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Cyngor Tref y Bont-faen
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Cynghorwyr Lleol
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Cyfarwyddwyr Addysg – Yr Holl Awdurdodau Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	

Tabl 1 – Rhestr o'r grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Cyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio

Cynhaliwyd cyfarfod gyda staff Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac roedd y Pennaeth a swyddogion y Cyngor yn bresennol ynddo. Amlygwyd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori yn ogystal â rhoi eglurhad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni ac aelodau o'r gymuned ofyn cwestiynau am y cynigion a darparu sylwadau anffurfiol.

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod staff - ysgol	Dydd Iau 7 Chwefror 2019 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Cyfarfod llywodraethwyr – ysgol	Nos Iau 7 Chwefror 2019 6pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Sesiwn galw heibio i rieni a'r gymuned - ysgol	Dydd Iau 7 Chwefror 2019 8.45am - 10.30am 2.30pm – 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Sesiwn Ymgysylltu â Disgyblion	Dydd Iau 14 Chwefror 2019	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Sesiwn galw heibio i'r gymuned	Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019 5pm – 7pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

Tabl 2 – Cyfarfodydd Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniadau'r sesiynau hyn yn Atodiad A.

Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol:

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru?

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynnigion, nodwch y rhain isod.

Unrhyw sylwadau eraill?

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn ysgrifenedig rhwng 28 Ionawr 2019 a 15 Mawrth 2019 wedi'u nodi isod.

Canlyniadau'r adborth gan yr holl randdeiliaid

Cafodd y corff llywodraethu 15 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 15 Mawrth 2019. O'r cyfanswm o 15 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 14 o blaid y cynnig, roedd 0 yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 1 yn rhoi barn y naill ffordd na'r llall.

Nodwyd na wnaeth yr holl ymgynghoreion ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Proffil o'r ymatebwyr

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r ymatebion:

Grwpiau o ymatebwyr	Nifer yr ymatebion o bob grŵp o ymatebwyr	% yr ymatebion o'r grwpiau o ymatebwyr
Rhiant	4	27
Disgybl	0	0
Staff	8	53
Preswlydd Lleol	1	7
Arall	2	13

Tabl 3 – Nifer a chanran yr ymatebion gan grwpiau o ymatebwyr

Ymatebion yn ôl themâu

Ceir crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a chrynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig isod.

Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddarau i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad B).

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant i gynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad A.

Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o'r ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w cyfleu air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i'r llywodraethwyr.

Mater 1

Byddai angen i draffig yn y pentref fod yn ystyriaeth ddifrifol

Roedd un ymateb yn nodi ei bod yn hanfodol bod pryderon ynghylch traffig yn cael eu hystyried wrth ddylunio adeilad newydd yr ysgol. Codwyd hyn gan nifer o rieni ac aelodau o'r gymuned yn y sesiynau galw heibio hefyd.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae 178 o ddisgyblion wedi bod yn yr ysgol yn flaenorol felly mae ganddi brofiad o ymdopi â niferoedd uwch o blant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Fodd bynnag, mae'r corff llywodraethu'n cydnabod y pryderon a godwyd gan rieni ac aelodau o'r gymuned a byddai'n cydweithio'n agos gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i roi mesurau ar waith i leihau tagfeydd i'r eithaf. Yn flaenorol, mae nifer o fesurau wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys:

- Amseroedd gorffen gwahanol ar ddiwedd y diwrnod ysgol
- Cyflwyno clwb brechwast
- Cyflwyno clwb ar ôl ysgol
- Presenoldeb staff wrth y gât cyn ac ar ôl ysgol

Mae'r corff llywodraethu hefyd yn nodi bod y cludiant am ddim a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion cymwys yn cael ei danddefnyddio'n sylweddol. Byddai'r corff llywodraethu'n gweithio gyda rhieni i ddeall yn well beth yw'r rhesymau dros beidio â defnyddio'r gwasanaeth hwn ac yn annog mwy ohonynt i'w ddefnyddio.

Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif fyddai'n rheoli'r broses dylunio ac adeiladu. Byddai asesiad trafndiaeth yn cael ei gynnal a'i ystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai'n rhaid i adeilad newydd yr ysgol gael caniatâd cynllunio a fyddai'n cynnwys ymgynghori'n ffurfiol ag aelodau o'r gymuned.

Mater 2

Mynediad at fannau agored yn ystod y gwaith adeiladu

Mynegwyd nifer o bryderon yn y sesiynau galw heibio ynghylch y mannau allanol cyfyngedig a fyddai ar gael yn ystod y gwaith i adeiladu'r ysgol newydd ar y safle presennol.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Cynigir y byddai'r gwaith i adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2020 ac y byddai'n cymryd tua 12 mis i'w gwblhau. Rhagwelir y byddai staff a disgyblion yn symud i mewn i adeilad newydd yr ysgol erbyn mis Medi 2021. Yn dilyn hyn, byddai adeilad presennol yr ysgol yn cael ei ddymchwel a manau allanol yn cael eu datblygu. Yn ystod yr amser hwn, byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at ddigon o fannau awyr agored ac nad yw'r cwricwlwm yn cael ei beryglu. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau chwarae cymunedol cyfagos ar gyfer chwaraeon a fyddai'n dal i gael eu defnyddio trwy gydol y cyfnod adeiladu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r tîm adeiladu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses a bod y cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi trwy ymweliadau rheolaidd â'r safle.

Mater 3

Colli'r ethos ysgol fach

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu â disgyblion cododd nifer o ddisgyblion bryderon ynghylch colli'r ethos ysgol fach wrth i'r ysgol dyfu i fod â 210 o ddisgyblion. Ceir adroddiad llawn ar y sesiwn ymgysylltu â disgyblion yn Atodiad A.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae Pennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn hyderus na fyddai ethos yr ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai'r holl staff a llywodraethwyr yn trosglwyddo i'r safle newydd o fis Medi 2021. Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys ardaloedd cymunol a manau ymneilltuo.

Byddai'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn raddol gyda'r nifer derbyn yn cynyddu o 20 i 30 o fis Medi 2021. Ni allai'r ysgol fod â 210 o ddisgyblion tan fis Medi 2027.

Byddai staff a disgyblion yn cael eu cefnogi'n llawn trwy'r broses bontio a byddent yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses dylunio ac adeiladu.

Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu detholiad o sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt yn gynhwysfawr nac wedi'u bwriadu i gyfleu'r ymatebion air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i'r llywodraethwyr.

Sylw 1

Byddai'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn gwella safonau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Nid yw'r safle fel y mae ar hyn o bryd yn addas i'w ddiben; mae angen cyfleusterau gwell i gynorthwyo'r staff addysgu i gyrraedd y safonau rhagorol y maent yn eu

cyrraedd ar hyn o bryd ar raddfa ehangach. Byddai'r manteision y gall y safle newydd eu cynnig yn galluogi hyn i ddigwydd. Ar hyn o bryd nid oes digon o le mewn rhai o'r ystafelloedd dosbarth i ddisgyblion fod ag ardal weithio ddigonol, nid oes cyfleusterau penodol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol megis gwersi cerddoriaeth, ac mae'r manau addas ar gyfer darpariaeth AAA yn eithriadol o gyfyngedig. Mae hefyd yn anodd ateb gofynion y cwricwlwm o ran TGCh am nad oes digon o gyfleusterau. Gall y diffyg coridorau amharu ar ddsbarthiadau pan fo angen i ddisgyblion neu staff symud drwy'r ysgol ac mae rhai ystafelloedd dosbarth heb fynediad mewnol at doiledau.

Sylw 2

Bydd angen rhagor o leoedd mewn ysgolion oherwydd datblygiadau tai newydd.

Mae angen ehangu'r ysgol i ateb y galw cynyddol o'r datblygiadau tai newydd. Nododd nifer o ymatebwyr fod ehangu'r ysgol yn hollbwysig i gynaliadwyedd lleoedd mewn ysgolion yn yr ardal. Er bod rhai o'r disgyblion wedi mynegi pryderon yn ystod y sesiwn ymgysylltu ynghylch colli'r ethos ysgol fach, maent wedi cael eu sicrhau y byddai'r pennaeth a'r staff yn gweithio i sicrhau bod ethos craidd yr ysgol yn cael ei gynnal a byddai cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ysgol yn digwydd dros nifer o flynyddoedd.

Sylw 3

Mae addysg yr Eglwys yng Nghymru'n werthfawr a dylid ei hehangu.

Mae ymatebion yn gwneud sylwadau am y gwerthoedd cadarnhaol y mae'r ysgol yn eu hybu trwy addysg yr Eglwys yng Nghymru. Ceir cefnogaeth i gynyddu'r ddarpariaeth yn yr ysgol er mwyn hybu'r budd a gynnigir gan addysg yr Eglwys yng Nghymru ymhellach.

Sylw 4

Byddai mwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol ar safle arfaethedig yr ysgol newydd o fudd i breswylwyr lleol.

Byddai preswylwyr Tregolwyn ac ardal y gymuned ehangach yn cael budd o fwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol.

Casgliad

Yn dilyn ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r corff llywodraethu wedi ailystyried y cynnig i ganfod yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg. Mae nifer o ymatebion gan rieni ac aelodau o staff wedi nodi

cyfyngiadau'r safle presennol a fyddai'n ei gwneud yn anodd rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Effaith ar y gymuned

Mae'r ysgol wedi ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned trwy gydol y broses ymgynghori, gan gynnwys sesiynau galw heibio cymunedol a chyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned lleol.

Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy:

- Sicrhau cyflenwad effeithlon i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion, gan ymateb i'r twf yn y boblogaeth o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig; a
- Darparu cyfleusterau gwell yn yr ysgol a allai gael eu defnyddio gan y gymuned. Mae rhoi anogaeth ar gyfer defnydd gan y gymuned yn un o amcanion allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Mae'r corff llywodraethu'n cydnabod bod pryderon ynghylch cynnydd mewn traffig a'r effaith ar seilwaith lleol. Fel a nodir uchod, byddai'r corff llywodraethu'n cydweithio'n agos gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i sicrhau bod y pryderon hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o ddylunio adeilad newydd yr ysgol.

Trefniadau teithio

Mae cludiant am ddim i'r ysgol ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant. Fel a nodir uchod, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd a byddai'r corff llywodraethu'n gweithio gyda rhieni disgyblion cymwys i'w hannog i ddefnyddio'r cludiant am ddim i gyfyngu ar yr effaith ar seilwaith lleol.

Argymhellion

1. Bod y corff llywodraethu'n ystyried yr adroddiad hwn.
2. Bod y corff llywodraethu'n rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.
3. Os bydd y corff llywodraethu'n penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bod y corff llywodraethu'n rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar gyfer y newid a reoleiddir ar ffurf hysbysiad statudol.

Atodiad A – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc.

Ymgynghoriad ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ar ran Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i ehangu'r ysgol o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru.

Cefndir a Nod

- Yn eu Dogfen Ymgynghori ar y cynnig uchod mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a lle y bo'n bosibl y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol: 'Mae'r Corff Llywodraethu yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys'.
- Trefnwyd gweithdy ymgynghori gyda'r cyngor ysgol ar 14 Chwefror 2019 i gasglu eu barn ynglŷn â'r cynnig.
- Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r sesiwn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Methodoleg

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i'r disgyblion gyd-drafod a rhannu syniadau ymysg eu gilydd.
- Trafodwyd yn gyntaf beth yw ystyr ymgynghoriad a pham fod siarad gyda disgyblion yn bwysig
- Cytunwyd ar beth sy'n gwneud trafodaeth dda/ymgynghoriad da
- Aethpwyd ymlaen i esbonio'r ddogfen ymgynghori wrthynt, gan cynnwys y cefndir ac amserlen y gweithgarwch.
- Rhannwyd y disgyblion yn 2 grŵp i rannu a nodi eu syniadau hwy eu hunain. Yna daethpwyd â'r ddau grŵp ynghyd i drafod y syniadau hyn ymhellach, yn seiliedig ar y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.
- Yn dilyn yr adborth, rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am y manteision a'r diffygion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r amserlen ac eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn ac y byddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad.

Ymatebion y disgyblion (12 aelod o'r Cyngor Ysgol: ystod oedran 6-11)

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda?:

- Gwrando ar bawb
- Cyfleoedd i bawb siarad

- Dim gweiddi allan
- Un yn siarad ar y tro
- Parchu barn pawb

Manteision y cynllun arfaethedig

- Mwy o le ar gyfer amgylchedd gweithio
- Haws i athrawon addysgu mewn mwy o le
- Mwy o adnoddau i bawb, e.e. offer ysgrifennu ar gyfer ystafelloedd dosbarth, bylbiau ar gyfer taflunwyr
- Mwy o ryddid
- Bydd yn fwy diogel; gallu parcio'n ddiogel
- Bydd disgyblion yn gallu creu mapiau fel bod pobl yn gwybod ble i fynd
- Amgylchedd saffach – mwy o le i chwarae, mwy o le i chwarae yn ystod amser egwyl
- Mwy o ffrindiau, plant hapusach
- Bydd yr ysgol yn fwy poblogaidd
- Mwy o gyfleoedd, e.e. gwersi coginio
- Bydd yn annog mwy o athrawon i ddod i'r ysgol – bydd mwy o arian i helpu gyda chyflenwadau; mwy o athrawon gwrywaidd (?)
- Ni fydd unrhyw ardaloedd pengaead – bydd yr holl ystafelloedd wedi'u cysylltu â'i gilydd
- Bydd mwy o athrawon ar gyfer pethau gwahanol; efallai y bydd yn fwy fel ysgol uwchradd lle gallwch fod ag athrawon arbenigol, e.e. ar gyfer mathemateg, cerddoriaeth.
- Haws i athrawon gyda dim ond un grŵp blwyddyn mewn dosbarth
- Mwy o ddisgyblion
- Mwy o ddewis o gyfarpar – gwersi AG gwell
- Bydd yn helpu'r rhai ag anabledau – mwy o fyrddau gwyn; bydd cymorth ychwanegol i'r rhai ag anghenion dysgu
- Neuadd chwaraeon fwy – rhy gyfyng ar y funud, bydd yn ein gwneud yn fwy heini ac yn fwy iach
- Offer gwell, peli pêl-droed gwell, peli pêl-rwyd gwell ac ati; offerynnau cerdd gwell; cwpwrdd chwaraeon mwy
- System aerdymheru well (mae'r ystafelloedd dosbarth yn mynd yn boeth yn yr haf)
- Dosbarthiadau mwy

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Bydd dryswch a bydd disgyblion yn mynd ar goll; poeni na fydd pobl yn gwybod ble i fynd ond wedi meddwl am ateb (gweler y manteision a chyfeiriad at fapiau)
- Fyddwch chi ddim yn adnabod pawb gan y bydd poblogaeth yr ysgol yn cynyddu; fydd pobl ddim yn sylwi arnoch
- Dim dosbarthiadau cymysg – dim ffrindiau gwahanol
- Bydd mwy o bobl yn brifo ar y buarth – maen nhw'n awgrymu cael syniadau gan y disgyblion i leddfyr'r broblem hon
- Fydd pobl ddim yn parchu'r offer newydd – mae angen i blant ymwneud ag eraill i ddatrys hyn neu fel arall bydd yn wastraff arian
- Ystafelloedd dosbarth yn fwy llawn

- Fydd y buarth ddim yn daclus
- Dydy pawb ddim am gael ysgol newydd am eu bod yn hoffi'r ysgol hon gymaint, mae eu teulu wedi bod yma

Sylwadau cyffredinol

Cefnogaeth aruthrol i'r cynnig a'r unig bryderon go iawn oedd y gallai'r ysgol golli ei hamgylchedd cyfeillgar, clòs sydd wedi bod yn gyfystyr ag ethos traddodiadol yr ysgol dros y blynyddoedd.

Y mân bryder arall oedd bod y profiad y maent yn ei gael ar hyn o bryd yn eu dosbarthiadau cymysg yn eu galluogi i werthfawrogi cyd-ddisgyblion eraill mewn grwpiau oedran gwahanol a chymysgu gyda hwy.

Roedd yn ddiddorol bod y disgyblion yn teimlo'n gryf y gallent ddatrys neu leddfu rhai o'r problemau posibl trwy fod yn rhagweithiol ynglŷn â phethau eu hunain.

14.ii.19

gj

Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin

Mae'r adran hon yn darparu sylwadau mewn ymateb i gwestiynau cyffredin ynghylch y cynnig.

Pryd fyddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn agor erbyn mis Medi 2021.

Beth yw'r raddfa amser fwriadedig ar gyfer datblygu adeilad newydd yr ysgol?

Er mwyn cyflawni'r graddfeydd amser uchod, mae gwaith adeiladu'n debygol o ddechrau o fis Gorffennaf 2020. Byddai contractwyr yn cael eu penodi cyn hyn i ddatblygu'r dyluniad a chynllunio. Byddai cais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr adeilad newydd.

Sut fyddai'r broses o symud adnoddau i mewn i adeilad newydd yr ysgol yn cael ei rheoli?

Byddai tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn rheoli'r broses o symud adnoddau i mewn i'r adeilad newydd. Mae prosiectau blaenorol wedi defnyddio diwrnodau HMS y naill ochr a'r llall i benwythnos neu wyliau ysgol i roi digon o amser i staff sefydlu'r amgylchedd yn barod ar gyfer dysgu ac addysgu.

Sut fyddai goblygiadau posibl ar gyfer trafndiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a nodir yn cael eu cynnwys wrth ddylunio'r adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

Pwy fyddai'n rheoli'r broses o adeiladu adeilad newydd yr ysgol?

Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol.

A fyddai adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol?

Cynigir y bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei godi ar y safle presennol a fyddai'n golygu y terfir rywfaint ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor i sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl trwy gyfyngu ar amseroedd danfon deunyddiau a chydweithio â rheolwr y safle. Mabwysiadwyd dull tebyg trwy gydol y broses o adeiladu datblygiad St David's Meadow, sydd wedi'i leoli'n agos at yr ysgol, yn ddiweddar.

A fyddai trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y broses o adeiladu'r ysgol newydd i sicrhau bod disgyblion yn gallu defnyddio manau awyr agored?

Gan y byddai'r adeilad newydd arfaethedig yn cael ei godi ar y safle presennol, byddai'r ysgol yn colli manau awyr agored yn ystod y cam adeiladu. Yn ystod yr amser hwn, byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at ddigon o fannau awyr agored ac nad yw'r cwricwlwm yn cael ei beryglu. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau chwarae cymunedol cyfagos ar gyfer chwaraeon a byddai hynny'n parhau trwy gydol y cam adeiladu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r tîm adeiladu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses a bod y cwricwlwm yn cael ei wella trwy ymweliadau rheolaidd â'r safle.

Sut fyddwn ni'n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn:

21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk